WG41344

Powys

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
# Dogfen ymgynghori

# Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd

Cynllunio cyn ymgeisio

Dyddiad cyhoeddi: 17 Medi 2020
Camau i'w cymryd: 14 Hydref 2020

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau Castell-nedd Port Talbot a Phowys i ddatblygu cynigion ar gyfer Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd ar safle glo brig Nant Helen a safle golchfa lo Onllwyn ar flaenau Cwm Dulais. Byddai'r cynigion yn rhan ychwanegol bwysig o strategaeth adnewyddu'r safle, gan weithredu fel sbardun i arloesi, buddsoddi a thwf y diwydiant rheilffyrdd yng Nghymru, y Deyrnas Unedig yn ehangach ac yn rhyngwladol. |
| **Sut i ymateb** | Gallwch ein hysbysu ni am eich sylwadau ynghylch y cynigion sy'n cael eu datblygu trwy lenwi a dychwelyd yr holiadur ar-lein yn https://llyw.cymru/canolfan-ragoriaeth-fyd-eang-cynllunio-cyn-cyflwyno-cais. Neu gallwch chi lawrlwytho'r holiadur ac anfon copi caled wedi'i lenwi at 'Freepost GRASSHOPPER CONSULT' (nid oes angen stamp nac unrhyw gyfeiriad ychwanegol). |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.** |
| **Manylion cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Cyfeiriad: 'Freepost GRASSHOPPER CONSULT' (nid oes angen stamp nac unrhyw gyfeiriad ychwanegol).<br><br>e-bost: ymgynghoriad@grasshopper-comms.co.uk<br><br>rhif ffôn: 01639 865515 |

## Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achredededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Trosolwg o'r prosiect

Rydyn ni'n cydweithio â Chyngor Sir Powys a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i ddatblygu cynigion am Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd ar safle gwaith glo brig Nant Helen a safle golchfa lo Onllwyn ym mlaenau Cymoedd Dulais a Thawe.

Byddai'r cyfleuster modern a phwrpasol i brofi seilwaith rheilffyrdd a stoc rholio yn ychwanegiad pwysig at strategaeth adnewyddu'r safle, gan weithredu fel sbardun ar gyfer arloesi, buddsoddi a thwf y diwydiant rheilffyrdd yng Nghymru, y Deyrnas Unedig yn ehangach ac yn rhyngwladol.

Mae gwaith ymgysylltu cynhwysfawr yn hanfodol i ddatblygu'r cynigion a'r canlyniadau gorau posib. Yn ogystal â thrafodaethau â rhanddeiliaid arbenigol, rydym yn cynnal gwaith ymgysylltu/ymgynghori cam wrth gam i alluogi trigolion a rhanddeiliaid lleol i helpu i lywio uwchgynllun y safle

Fe wnaethom gynnal digwyddiadau galw heibio a gweithgarwch ymgysylltu cynnar â thrigolion ac amrywiaeth eang o randdeiliaid lleol ac yn y gymuned (2 Gorffennaf hyd at 7 Hydref 2019) er mwyn ystyried y cyfleoedd a'r cyfyngiadau a oedd yn gysylltiedig â'r dyluniad cychwynnol ac er mwyn helpu i nodi sut y gallwn fwyafu'r buddion cymdeithasol ac economaidd a lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd ar yr un pryd.

Daeth mwy na 450 o bobl i'r digwyddiadau ymgysylltu cynnar hyn i drafod y cynigion oedd yn cael eu datblygu ag aelodau o dîm y prosiect a derbyniwyd mwy na 70 o ymatebion (drwy holiadur, e-bost neu dros y ffôn). Roedd y rhan fwyaf o bobl y gwnaethom ni siarad â hwy yn gefnogol o'r prosiect a'r buddion y byddai'n eu cynnig i'r ardal leol a'r ardal ehangach. Mae materion allweddol a godwyd gan bobl leol - gan gynnwys sŵn, dirgryniad, ansawdd aer a llygredd golau - wedi cael eu hystyried a'u trin yn y cais cynllunio drafft. Codwyd mater tir comin a hawliau tramwy cyhoeddus hefyd, sy'n cael sylw o dan ymarferion ymgynghori ar wahân.

Rydym bellach yn cynnal ymgynghoriad statudol 28 diwrnod cyn cyflwyno'r cais - o 17 Medi i 14 Hydref 2020 - i alluogi cymdogion, ymgynghoreion cymunedol, perchnogion/deiliaid ac ymgynghorwyr arbenigol, yn ogystal â chymunedau lleol, i adolygu ein cynigion a chynnig adborth ynghylch yr uwchgynllun amlinellol.

Bydd yr holl sylwadau yn cael eu hystyried cyn i ni gwblhau a chyflwyno'r cais cynllunio amlinellol i Gynghorau Castell-nedd Port Talbot a Phowys i'w benderfynu.

Gellir gweld amserlen ddangosol ar gyfer y rhaglen ehangach a gwaith ymgysylltu/ymgynghori ychwanegol yn adran camau nesaf y ddogfen hon.

# Y safle

Byddai Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yn cael ei lleoli ar safle gwaith glo brig Nant Helen a safle golchfa lo Onllwyn, sydd ar hyn o bryd yn eiddo i Celtic Energy ac yn cael ei weithredu ganddo. Lleolir y safle ym mlaenau Cymoedd Dulais a Thawe ar y ffin rhwng Castell-nedd Port Talbot a Phowys, ac mae'r ffin â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i'r gogledd.


O ran cludiant, mae gan y safle gysylltiadau da. Gellir mynd iddo o'r A4109 ac mae wedi'i leoli'n gyfleus er mwyn ei gysylltu â'r A465 (Ffordd Blaenau'r Cymoedd), sef cefnffordd strategol sy'n cysylltu Abertawe yn y de-orllewin â Henffordd yng ngogledd-ddwyrain y rhanbarth.

Yn ychwanegol, mae gan y safle fynediad rheilffordd drwy linell gangen/gludo i'r de sy'n cysylltu Prif Linell De Cymru drwy gilffordd Crymlyn Abertawe.

**Adfer safle glo brig Nant Helen**
Bydd Celtic Energy yn dod â gweithrediadau mwyngloddio i ben ar safle Nant Helen, a bryd hynny, bydd yn rhaid adfer y safle o dan rwymedigaethau statudol a bennwyd ac y rhoddwyd caniatâd iddynt gan Gyngor Sir Powys. Cymeradwywyd y cais cyntaf (cyf. Cyngor Sir Powys: 19/1899/REM) ar gyfer adfer yr ardal waith bresennol ym mis Ebrill 2020.

Diwygiodd Celtic Energy y cynllun adfer yn gynharach eleni er mwyn hwyluso'r prosiect Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd. Yr ail gais cynllunio oedd ar gyfer adeiladu gwrthgloddiau adfer cyflenwol i greu dau blatfform tirffurf dolennog (rhan mewn hafn a rhan ar yr arglawdd) â seilwaith draenio cysylltiedig a mannau wedi'u tirweddu a chreu cynefinoedd. Dyluniwyd y gwrthgloddiau i alluogi rhaglen gwrthgloddiau'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd i symud ymlaen ochr yn ochr â'r cynigion adfer. Cymeradwywyd y cais cynllunio hwn (cyf. Cyngor Sir Powys: 20/0738/FUL) ddiwedd mis Gorffennaf 2020.

Mae Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yn rhoi cyfle i etifeddiaeth ddiwydiannol newydd a all ddiwallu anghenion y diwydiant rheilffyrdd ar un safle â mynediad da i'r rhwydwaith rheilffyrdd a ffyrdd a phorthladdoedd dŵr dwfn ym Mhort Talbot ac Abertawe.


CYNLLUN Y LLEOLIAD
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
ABERCRAF
CAEHOPKIN
YNYSWEN
A4067
River Tawe
A4067
NCN43
COELBREN
YSTRADGYNLAIS
A
B
Powys CC
Neath Port Talbot CBC
ONLLWYN
A4221
Powys CC
Neath Port Talbot CBC
A4109
SEVEN SISTERS
Allwedd
A Gwaith glo brig Nant Helen
B Safle golchfa lo Onllwyn
Ffin awdurdod lleol
Llwybrau beicio cenedlaethol
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
DS. Mapiwyd holl nodweddion y safle yn fras

## Cyfleoedd ar gyfer buddsoddi yn y rheilffyrdd

Mae prosiect y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yn cynnig cyfle i fuddsoddi'n sylweddol mewn rheilffyrdd yng Nghymru. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo i adfywio rhwydwaith y rheilffyrdd trwy ddarparu gwasanaethau a stoc rholio (trenau a cherbydau) newydd, atebion arloesol a rhaglen arwyddocaol o fuddsoddi mewn gorsafoedd.

Mae Bargen Sector Rheilffyrdd Llywodraeth y DU (2018) yn amlinellu dull newydd sy'n hyrwyddo gweithio mewn partneriaethau rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat i gynyddu arloesedd a chynhyrchiant. Ei nod yw sicrhau y dylai'r DU gyflawni buddion technoleg ddigidol newydd a bod ar flaen y gad yn fyd-eang o ran technoleg rheilffyrdd a datgarboneiddio, gan gynyddu allforion a sgiliau.

Mae'r angen am gyfleuster profi o'r radd flaenaf i gynnal a chyflymu'r broses o gyflawni'r amcanion strategol hyn wedi cael ei gydnabod gan Lywodraeth y DU.  Wrth i drenau newydd a chydrannau eraill gael eu cyflwyno i rwydwaith rheilffyrdd y DU, mae'n rhaid eu profi'n drylwyr cyn eu rhoi ar waith. Ar hyn o bryd, bydd trenau sy'n cael eu gweithgynhyrchu yn y DU yn cael eu cludo'n aml i gyfleusterau profi yn Ewrop, ar gost sylweddol.

Bydd Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yn darparu cyfleuster profi rheilffordd amlddisgyblaethol a fydd yn gallu profi seilwaith i'w gyflwyno i'r rheilffordd a stoc rholio.  Byddai cyfleuster o'r fath yn cynnig y gallu i'r diwydiant rheilffyrdd gyflwyno arloesedd yn barod ar gyfer y rhwydwaith ar gyflymder llawer cyflymach nag sy'n digwydd ar hyn o bryd.  Byddai hyn yn lleihau costau'r diwydiant, yn cynorthwyo â datgarboneiddio, ac yn helpu i hwyluso arloesedd, cynyddu sgiliau a hyfforddiant a chreu swyddi yn y DU. Gan gofio'r galw am gyfleusterau profi ledled Ewrop a thu hwnt, disgwylir y bydd Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd hefyd mewn sefyllfa dda i allu denu busnes rhyngwladol.

Fel rhan o ddatblygu cynllun busnes ar gyfer y prosiect, rydym wedi cynnal gwaith 'profi marchnad sylfaenol' helaeth â rhanddeiliaid yn y diwydiant rheilffyrdd. Mae hyn wedi ein galluogi i archwilio'r angen busnes a chynnwys cyngor ac adborth technegol yn y dyluniad. Mae'n dangos bod achos strategol cryf dros ganolfan profi rheilffyrdd newydd sy'n cyfuno profi seilwaith a stoc rholio â chyfleusterau ar gyfer storio'r stoc a gwaith cynnal, ynghyd â hyfforddiant ac ymchwil a chyfleusterau datblygu.

Rydym bellach wedi cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol yn nodi hyfywedd, cynaliadwyedd a phecyn buddsoddi'r prosiect i Lywodraeth y DU.  Mae hyn yn gofyn am arian i ddatblygu'r prosiect, a fydd yn ei dro yn cynnal buddsoddiad ehangach ac yn cynorthwyo ag adfywiad economaidd yr ardal.

## Cynorthwyo ag adferiad ar ôl COVID-19

Ers i'r cyfnod o gyfyngiadau symud ddechrau yng nghanol mis Mawrth 2020, mae nifer y siwrneiau gan deithwyr y rheilffyrdd wedi gostwng yn sylweddol, â chryn dipyn yn llai o wasanaethau ar gyfer gweithwyr allweddol a theithiau hanfodol, gan arwain at golli

refeniw.  Mae Llywodraeth y DU a Thrafnidiaeth Cymru wedi rhoi trefniadau ariannol dros dro ar waith ar gyfer Cymru.

Heb os, bydd costau sylweddol y pandemig yn faich ar gyllid cyhoeddus, ac yn y dyfodol, bydd angen cynyddol i sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl yn y sector rheilffyrdd.

Mae'r Prif Weinidog wedi pwysleisio pwysigrwydd gwariant ar seilwaith i helpu i roi hwb i'r economi a sicrhau adferiad economaidd tymor hir. Bydd angen i'r sector rheilffyrdd hefyd arloesi i ddarparu ar gyfer newidiadau yn anghenion cwsmeriaid a defnyddwyr gweithredwyr o ganlyniad i'r pandemig, megis addasu i “economi cyswllt isel” yn y dyfodol.

Mae Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yng Nghymru mewn sefyllfa dda i ddarparu atebion i'r ddau fater hyn - trwy ei ffocws ar seilwaith (gan gynnwys seilwaith digidol), arloesi ac effeithlonrwydd cyflenwi trafnidiaeth, ynghyd â'i gyfraniad posibl at gynnal trafnidiaeth, symudedd a'r buddion economaidd a ddaw o gysylltedd.

Gall y prosiect fod yn ymateb cadarnhaol di-oed i'r dirwasgiad anochel yng Nghymru a'r DU, gan ddarparu budd tymor byr, ac ar yr un pryd, datblygu ased a fydd yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol dros y tymor hwy.

## Buddion economaidd a chymdeithasol

Bydd Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yn gatalydd i fuddsoddiad yn y diwydiant rheilffyrdd yng Nghymru, gan gynnig cyfleuster ymchwil, datblygu a phrofi o'r radd flaenaf yn y DU. Bydd y cyfleuster profi seilwaith sydd wedi'i ymgorffori yn yr uwchgynllun eglurhaol yn unigryw yn Ewrop.

Mae'n bosib bydd y budd economaidd i Gymru'n sylweddol. Os caiff pob elfen o'r cyfleuster ei gwireddu, gellir disgwyl i'r safle gynnal oddeutu 180 o swyddi pan fydd yn gwbl weithredol. Byddai'r cyfleusterau hefyd yn denu ymwelwyr rheolaidd i'r ardal wrth i beirianwyr, academyddion a thimau cymorth ddefnyddio'r safle ar gyfer prosiectau unigol, gan gynnig hwb posib i ddiwydiannau gwasanaeth lleol.

Byddai angen amrywiaeth o rolau yn Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yng Nghymru, er y byddai rhai o'r rhain yn arbenigol a byddai angen sgiliau nad ydynt yn bresennol yn y farchnad lafur yn ne Cymru ar hyn o bryd. Rhagwelir y gallai'r safle fod yn ganolbwynt yn y DU ar gyfer hyfforddiant gweithredol, gan gynnig cyfleoedd i bobl leol ddatblygu'r sgiliau y mae eu hangen arnynt ar gyfer gyrfa yn y diwydiant rheilffyrdd.

Gallai presenoldeb y cyfleuster fod yn gatalydd i ddatblygu galluoedd ymchwil newydd yng Nghymru yn y dyfodol, yn enwedig mewn cydweithrediad â darparwyr addysg uwch. O ganlyniad, ceir potensial i ddatblygu rhaglenni ymchwil ac addysg sy'n cynnal datblygiad ehangach y diwydiant rheilffyrdd yng Nghymru a’r tu hwnt, gan greu cronfa o weithwyr medrus ym meysydd gweithgareddau cysylltiedig.

Yn ystod y cyfnodau adeiladu, amcangyfrifir y bydd tua 240 o swyddi cael eu creu.

Yn hollbwysig, mae'r prosiect yn cynrychioli cyfle prin i greu swyddi newydd a pharhaol o safon uchel yn y rhan hon odde Cymru. Yn hanesyddol, mae'r diwydiant cloddio glo, ar y cyd

â diwydiant trwm, wedi bod yn gonglfaen economïau De Cymru. Mae'r diwydiannau hyn bellach yn dirywio.

Byddai gwireddu Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yn gwneud cyfraniad o bwys at lenwi bwlch y diwydiant trwm sy'n cael ei golli yn y rhanbarth, gan helpu i gynnal cymunedau presennol a sicrhau eu bod yn gallu wynebu newidiadau'r dyfodol yn gydnerth.

## Sgiliau a hyfforddiant

Bydd Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yn creu cyfleoedd hyfforddi ar gyfer darpar weithwyr lleol yn ogystal ag i reilffordd a chadwyn cyflenwi Cymru a'r DU.

Gallai'r safle ddarparu cyfleoedd hyfforddi a chyfleoedd cyflogaeth trwy bartneriaeth â sefydliadau Addysg Bellach leol fel Coleg Castell-nedd a Choleg Y Cymoedd a gyda Phrifysgolion a chyflogwyr ledled Cymru a'r DU.

## Buddsoddiad

- Gwerth Ychwanegol Gros Ychwanegol (GVA) ar gyfer yr ardal: hyd at £90m ar lefel leol ar gyfer Powys a Chastell-nedd Port Talbot, ac ar lefel Cymru. Bydd hyn yn cael effaith economaidd-gymdeithasol sylweddol yn lleol a byddai hefyd yn cyfrannu at berfformiad a thwf economaidd Cymru a ledled y DU.
- Canfu astudiaeth gan Oxford Economics (2018) ar gyfer Cymdeithas y Diwydiant Rheilffyrdd (RIA) fod gweithgarwch cysylltiedig â rheilffyrdd yn y DU yn cynnal oddeutu:

**£36bn o GDP** sy'n cyfateb i oddeutu 2.3 y cant o allbwn economaidd y DU

**600,000 o swyddi** sy'n cyfateb i 1.7 y cant o'r gyflogaeth genedlaethol

**£11bn mewn refeniw treth**

**GVA cyfartalog o £68,900 y swydd**
rhyw 50 y cant yn uwch na chyfartaledd y DU

**2.2 swydd** a gefnogir yn sector cyflenwi rheilffyrdd y DU i bob swydd ar system reilffyrdd y DU

Dywed yr astudiaeth fod y diwydiannau cysylltiedig â rheilffyrdd wedi cyfrannu £1.14bn o allbwn economaidd yng Nghymru, sy'n cyfateb i oddeutu 3% o Gynnyrch Domestig Gros (CDG) cysylltiedig â rheilffyrdd y DU ac 1.95% o gyfanswm GVA Cymru.

# Y Cynigion

## Amcanion

Nod y prosiect yw cyflawni sawl amcan a ddatblygwyd i fynd i'r afael â phroblemau ac anghenion diwydiant rheilffyrdd y DU. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyflwyno cyfleuster profi rheilffyrdd modern a chynhwysfawr yn y DU i ddarparu'r capasiti a'r galluoedd ar gyfer profi stoc rholio, seilwaith a systemau integredig yn drylwyr o'r prototeip i'r cam gweithredu.
- Gweithredu fel catalydd ar gyfer creu canolbwynt technoleg rheilffyrdd yng Nghymru, gan ddarparu platfform hyblyg, marchnad agored ar gyfer arwain gweithgaredd Ymchwil a Datblygu sy'n sbarduno arloesedd.
- Darparu cyfleoedd i gydweithio â'r diwydiant rheilffyrdd i gynorthwyo i ddatblygu sgiliau trwy gyflogaeth o ansawdd uchel mewn swyddi teg, diogel a chynaliadwy sy'n cyfrannu at leihau anghydraddoldeb rhanbarthol a hyrwyddo adfywio yng Nghymru.
- Datblygu a phrofi gweithdrefnau, safonau a manylebau gweithredu a chynnal a chadw rheilffyrdd newydd sy'n gwella cryfderau cystadleuol y DU fel arweinydd byd wrth gyflawni niwtraliaeth carbon, gan gyfrannu at ostyngiad cyffredinol mewn allyriadau carbon ar draws y diwydiant rheilffyrdd.

Mae'r uwchgynllun ar gyfer y safle wedi'i lunio trwy ymgysylltu'n helaeth â'r diwydiant rheilffyrdd ac academyddion rheilffyrdd yn ogystal â'r gymuned leol dros y ddwy flynedd ddiwethaf.


## Ystyriaethau Allweddol

Mae'r prosiect wedi'i ddatblygu gan ystyried:

- Cyd-destun amgylchynol o ran agosrwydd at y Parc Cenedlaethol.
- Agosrwydd aneddiadau ac ardaloedd preswyl.
- Topograffi ac amgylchiadau'r ddaear.
- Cysylltiadau â'r rheilffordd bresennol.
- Cyfleustodau - llinellau pŵer uwchben yn bennaf.
- Hawliau tramwy cyhoeddus.
- Tir comin,
- Asedau treftadaeth.
- Ceisiadau ymgynghori â'r diwydiant rheilffyrdd ynghylch cyfleusterau (gan gynnwys nifer a maint).
- Gofynion profi technegol cyflymder uchel a seilwaith.

Mae'r cynigion a nodir yn yr adran uwchgynllun yn dwyn sylw at sut rydym wedi ceisio mynd i'r afael â'r ystyriaethau hyn a chynyddu'r cyfleoedd i'r eithaf, gan fodloni gofynion y diwydiant rheilffyrdd ar yr un pryd.

Ymdrinnir yn fanwl â'r materion hyn a sut y gallwn geisio eu lliniaru yn yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, sydd â phenodau ar fioamrywiaeth, sŵn a dirgryniad, ansawdd aer, traffig a chludiant, hydroleg a llifogydd, amgylchiadau'r tir, treftadaeth ddiwylliannol, tirwedd a'r effaith weledol, iechyd a lles a newid yn yr hinsawdd.




**Allwedd**

**Nodweddion presennol y safle**

**1** Tomen orlwytho

**2** Canolfan ddosbarthu Onllwyn

- Llwybrau beicio cenedlaethol
- Mynediad o'r llwybr beicio
- Rheilffordd bresennol
- Mynediad drwy'r rheilffordd bresennol
- Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Henebion cofrestredig (o fewn y safle)
- Adeiladau rhestredig
- Hawlau tramwy cyhoeddus
- Agosrwydd at sensitifrwydd anheddiad / sŵn
- Leiniau trydan
- Is-orsaf
- Tir serth
- Tir Comin

DS. Mapiwyd holl nodweddion y safle yn fras

**Yr Uwchgynllun**

Mae'r cynigion yn cynnwys dwy brif elfen:

1. Cyfleuster profi rheilffyrdd ar y tir ar safle glo brig Nant Helen.
2. Canolfan ymchwil, datblygu, addysg a hyfforddiant, cyfleusterau storio a chynnal a chadw cysylltiedig ar y tir sy'n gysylltiedig â golchfa Onllwyn.

***Cydran 1: Cyfleuster profi rheilffyrdd***

Y prif elfennau ar y tir ar safle glo brig Nant Helen yw:


- **Trac profi rheilffyrdd allanol cyflymder uchel wedi'i drydaneiddio (6.9 km)** ar gyfer profi perfformiad trenau trydan, batri, disel/deufoddol a hydrogen â chyflymder llinell hyd at 110 mya.
- **Trac profi rheilffyrdd mewnol cyflymder isel wedi'i drydaneiddio (4.5 km)** ar gyfer profi seilwaith - megis y trac, sliperi a ffurfiannau eraill, platfformau a signalau yn ogystal ag offer pŵer a thelathrebu ar gyflymder llinell o hyd at 40mya.
- **Amgylchedd gorsaf platfform deuol** (sy'n nodweddiadol o rwydwaith rheilffyrdd y DU) ar gyfer profi rhyngwynebau platfformai a threnau. Bydd gan y platfformau ddigon o hyd i wasanaethu trenau 230m.

Cymeradwywyd y gwrthgloddiau (gan gynnwys yr hafn a'r argloddiau) sy'n ofynnol ar gyfer gosod y ddau drac profi ym mis Gorffennaf 2020 (cyf. Cyngor Sir Powys: cyf 07/0738/FUL).

Bydd gan y traciau profi:

- Drac mynediad o amgylch y perimedr ar gyfer gwaith cynnal a chadw.
- Ceblau pŵer uwchben o amgylch y traciau profi.

Bydd y traciau profi yn cysylltu â'r llinell gangen bresennol i'r de ac i ardal y golchfa. Disgwylir y byddai stoc rholio'n cael eu symud at ddibenion profi gan ddefnyddio'r llinell gysylltu hon oherwydd hynny fyddai'r ffordd o fwyaf effeithiol a chynaladwy o gludo. Gellid hefyd symud stoc rholio drwy'r rhwydwaith ffyrdd strategol, gan ddibynnu ar angen a math.




**Allwedd**

**Nodweddion y Safle**

1 Trac profi cledrau allanol cyflymder uchel trydan

2 Trac profi cledrau mewnol cyflymder isel trydan

3 Amgylchedd gorsaf â dau blatfform

4 Man storio stoc rholio / cilffyrdd

5 Ymchwil, datblygu, addysg a hyfforddiant / canolfan gynadledda

6 Cyfleuster cynnal cerbydau

7 Canolfan gweithrediadau a rheoli/swyddfa a chyfleusterau staff

Ffyrdd mynediad i'r safle

Llwybr beicio cenedlaethol

Leiniau Trydan Presennol

Rheilffordd bresennol

Rheilffordd arfaethedig

DS. Mapiwyd holl nodweddion y safle yn fras.

***Cydran 2: Canolfan ymchwil, datblygu, addysg a hyfforddiant, cyfleusterau storio a chynnal a chadw cysylltiedig***

Y prif gyfleusterau a gynigir ar safle golchfa Onllwyn (sy'n cynnwys arwynebedd o tua 58ha) yw:

- Canolfan ymchwil, datblygu, addysg a hyfforddiant/cynadledda - gan ddarparu labordy ar gyfer coladu ac asesu canlyniadau profion yn ogystal ag ardaloedd gosod i lawr ar gyfer offer sy'n cael ei brofi.
- Canolfan rheoli a gweithrediadau/swyddfa lle byddai gweithgareddau profi yn cael eu rheoli.
- Cyfleusterau staff.
- Man storio stoc rholio/cilffyrdd.
- Cyfleuster cynnal a chadw stoc rholio ar gyfer trenau sy'n cael eu profi yn y cyfleuster.
- Seilwaith offer llinell uwchben 25kv (OLE).
- Seilwaith cysylltiedig i gynnwys llwybrau mynediad, parcio ceir staff, draenio, goleuo, 'hyper-gysylltedd' cyfathrebu symudol a thir, teledu cylch cyfyng, ffensys perimedr/diogelwch (gan gynnwys lliniaru acwstig yn ôl yr angen), uwchraddio cysylltiad signalau Cangen Castell-nedd a Brecon.

Bydd gan y ganolfan gysylltiadau rheilffordd â'r traciau profi a'r llinell gangen bresennol i gyfeiriad y de-orllewin.  Bydd hyn yn hwyluso symudiad mewnol stoc rholio at ddibenion profi. Bydd hefyd yn cysylltu â'r safle yn ehangach drwy ffyrdd mynediad mewnol at ddefnydd staff gweithredu.

## Adeiladu

***Graddoli***

Bydd y prosiect yn cael ei gyflwyno'n raddol a bydd y datblygiad yn dibynnu ar ofynion y diwydiant a galw'r farchnad. Fodd bynnag, mae'n debygol o gael ei drefnu fel y tri cham canlynol:

| | |
|---|---|
| Cam 1: | Profi seilwaith (gweithredol 2023) |
| Cam 2: | Profi stoc rholio (gweithredol 2024) |
| Cam 3: | Cyfleuster Ymchwil a Datblygu/addysg, cyfleuster profi disymud a labordai cysylltiedig a chyfleuster cynnal a chadw/digomisiynu stoc rholio (gweithredol 2025) |

***Mynediad***
Y mynediad presennol i safle'r olchfa o'r A4221 fydd y brif fynediad i mewn/allan o'r safle yn ystod y gwaith adeiladu, gyda mynediad ychwanegol o Heol Onllwyn (sy'n rhedeg i mewn i'r safle o'r A4109).

***Symudiadau traffig***
Bydd y deunydd adeiladu na ellir ei gludo ar reilffordd yn cael ei ddanfon trwy lwybrau ffyrdd y cytunwyd arnynt â Chynghorau Castell-nedd Port Talbot a Powys.

Cynhaliwyd Asesiad Traffig i asesu addasrwydd y rhwydwaith priffyrdd lleol a strategol ac ni chynigir unrhyw welliannau i ffyrdd oddi ar y safle oherwydd gall y ffordd bresennol ddarparu ar gyfer y traffig y rhagwelir y bydd Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yn ei gynhyrchu yn y cam adeiladu ac yn ystod gweithredu'r safle.

***Oriau gwaith***
Yr oriau gwaith fydd:

- 6yb i 10yh o ddydd Llun i ddydd Gwener (ag oriau cyfyngedig ar Arglawdd y Gogledd rhwng 7am a 6pm)
- 7yb – 1yp ar ddydd Sadwrn

***Rheolaeth amgylcheddol***
Bydd gweithgareddau adeiladu yn cael eu rheoli trwy weithredu Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) sy'n nodi pa fesurau diogelu'r amgylchedd a monitro sydd eu hangen ar y contractwr/contractwyr. Bydd hyn yn cynnwys sŵn, golau a dirgryniad o'r gwaith adeiladu. Mae'r CEMP drafft wedi'i gynnwys fel rhan o'r Datganiad Amgylcheddol ac mae angen iddo gael ei gymeradwyo gan Gynghorau Castell-nedd Port Talbot a Powys cyn dechrau ar y gwaith.

## Gweithredu

***Oriau gweithredu***
Yn dibynnu ar y galw, bydd y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yn gweithredu 24/7 ac mae'n debygol y bydd staff ar y safle pan fydd profion yn cael eu cynnal.

***Stoc rholio (trac allanol)***
Pan fydd trên yn cael ei brofi, byddai'n rhedeg yn barhaus ar gyflymder hyd o at 110mya a chyflymder uchaf o 70-85mya ar y gromlin fach. Bydd hyn yn arwain at gwblhau tua 20 lap bob awr.

***Profi seilwaith (trac mewnol)***
Pan fydd trên yn cael ei brofi, byddai'n rhedeg yn barhaus ar gyflymder llinell (40mya). Mae hyn yn arwain at tua 13.75 lap wedi'u cwblhau yr awr.

***Traffig a thrafnidiaeth***
Ar hyn o bryd, mae'r wefan yn cyflogi tua 100 o staff sy'n gweithio mewn dau brif batrwm hifft a cheir tua 200 o symudiadau dwyffordd bob dydd.

Disgwylir i'r cyfleuster newydd gyflogi lefel debyg o weithlu, â hyd at 120 o staff o bosibl yn gweithio patrwm diwrnod gwaith mwy arferol, â chyfradd cynhyrchu teithiau o tua 240 o symudiadau cerbydau dwyffordd yn ystod diwrnod gwaith arferol [oddeutu 60 o staff ychwanegol yn y Ganolfan Ymchwil ac Arloesi]. Ni ystyrir bod y cynnydd canlyniadol yn nifer y staff a theithiau cerbydau yn sylweddol mewn perthynas â chapasiti'r rhwydwaith priffyrdd lleol.

Bydd darpariaeth cyfleusterau ar gyfer cerddwyr a beicwyr yn cael ei nodi yn y Cynllun Teithio a bydd yn ceisio hyrwyddo Teithio Llesol i'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd ac i ffwrdd ohoni.

Bydd y safle'n darparu lleoedd parcio beiciau diogel â goleuadau mewn mannau a diogelwch addas mewn lleoliadau sy'n hygyrch i'r datblygiad adeiledig. Bydd dull dynodi llwybr clir hefyd yn cael ei ddarparu ar y safle er mwyn i'r holl ddefnyddwyr deithio'n ddiogel ac yn unol ag unrhyw ganllawiau cyfleusterau.

***Sŵn a dirgryniad***
Rhagwelir y bydd mwyafrif y trenau sy'n cael eu profi yn drydanol (70%), â 20% yn rhedeg ar hydrogen a 10% ar ddisel neu ddeufoddol.  Caiff technolegau tyniant cenhedlaeth nesaf eraill hefyd eu datblygu a'u profi ar y safle.  Dros amser, disgwylir yn llwyr y bydd trenau sy'n cael eu pweru gan danwydd ffosil yn cael eu diddymu'n raddol o'r rhwydwaith, a bydd GCRE yn cyfrannu at gyrraedd targedau sero net y diwydiant rheilffyrdd.

Mae sŵn a dirgryniad wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu'r cynlluniau.  Paratowyd arolwg sŵn cefndir a chynhelir lliniaru fel y bo'n briodol.

***Goleuadau***
Ni fydd angen goleuo'r traciau profi, ac eithrio o bosibl ar blatfformau'r orsaf brawf. Byddai angen goleuadau ar safle'r depo er diogelwch, oherwydd dyma lle bydd mwyafrif y staff wedi'u lleoli. Goleuadau lefel isel ar ffurf atalbyst fyddai'r rhain.

***Coetir hynafol***
Mae un llecyn o blanhigfa wedi'i gofnodi ar goetiroedd hynafol (PAWS) o fewn ffin y safle.  Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn dangos nad PAW yw'r llecyn o blanhigfa

gonwydd sydd i'w golli o ganlyniad i'r datblygiad, oherwydd cafodd ei gweithio yn y 1970au fel rhan o lofa brig Abercraf/Gwaunton ac felly mae unrhyw fflora daear, priddoedd a gwelyau hadau wedi cael eu dinistrio. Derbyniwyd hyn gan ecolegwyr y Cyngor wrth ystyried cais gwrthgloddiau cyflenwol Nant Helen.

Cynigir plannu coed o rywogaethau coed llydanddail brodorol yng nghornel ogledd-orllewinol y safle (mewn llecyn ble ceir conwydd presennol) i wella gwerth cadwraeth natur y coetir hwn a darparu cysylltedd â phlannu coed newydd a gynigir fel rhan o'r cynllun adfer cymeradwy. Ar y cyd, bydd mesurau i greu a gwella cynefin o fudd i arwynebedd o tua 226ha.

***Rhwydwaith llwybrau troed a beicio***
Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar draws y safle y bydd y cynigion yn effeithio arnynt.

Mae nifer o'r llwybrau hyn wedi'u hatal ar hyn o bryd o ganlyniad i weithrediadau glo brig. Wrth adeiladu Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd, bydd angen dargyfeiriadau tymor byr neu bydd angen cau rhannau o lwybr ceffylau 45 a llwybr troed 19 dros dro yng nghyffiniau'r gwaith er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd.

O ran Hawliau Tramwy Cyhoeddus, datblygwyd strategaeth tymor hwy a fydd yn golygu fod yr Hawliau Tramwy sy'n mynd trwy'r safle ar hyn o bryd yn cael eu disodli gan lwybr cylchol o lwybrau troed a llwybrau ceffylau o amgylch perimedr y safle. Mae hyn i'w gyflawni trwy ddynodi'r trac beicio gogleddol yn llwybr ceffyl neu'n gilffordd. Bydd ymgynghoriad ar wahân ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cael ei gynnal yn ddiweddarach eleni mewn perthynas â'r cynigion hyn.

***Tir Comin***
Mae rhan o’r safle hefyd yn rhan o Gomin Mynydd-y-Drum, y mae cyfran o hawliau’r Cominwyr yn cael ei atal dros dro ar hyn o bryd oherwydd y gwaith glo brig.


Mae cynigion i fynd i’r afael â materion yn ymwneud â Thir Comin yn cael eu datblygu trwy ymgynghori â Chyngor Sir Powys a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Bydd y rhain yn gofyn am atebion dros dro a pharhaol ar gyfer gwrthgloddiau a chyfnodau cyflenwi Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd a byddant hefyd yn destun proses ymgynghori ar wahân.

## Camau nesaf
Rhowch wybod i ni beth yw eich safbwyntiau ynghylch y cynigion ar gyfer Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yng Nghymru.

Gallwch wneud hyn trwy lenwi'r ffurflen adborth - y gellir ei chwblhau neu ei lawrlwytho

o dudalen we'r prosiect: https://llyw.cymru/canolfan-ragoriaeth-fyd-eang-cynllunio-cyn-cyflwyno-cais. Y dyddiad cau ar gyfer sylwadau yw 14 Hydref 2020.

Byddwn yn adolygu'r holl adborth ac yn ei ddefnyddio i lywio ein cynigion terfynol a'n cais i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol.




# Llinell amser

Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd

**Ymgynghori**
**Ffurflen Ymateb**

Eich enw:

Sefydliad (lle bo’n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**C1:** Pa mor bwysig yw'r buddion economaidd a chymdeithasol a nodwyd i'r ardal leol? Rhowch sgôr iddynt o 1 i 5 (mae 1 yn golygu yn bwysig iawn a 5 yn golygu ddim yn bwysig o gwbl):

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Creu swyddi (yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu) | | | | | |
| Hwb i wasanaethau lleol/cadwyn cyflenwi | | | | | |
| Sgiliau a hyfforddiant lleol | | | | | |
| Datblygu diwydiant newydd yn lle mwyngloddio glo | | | | | |
| Buddsoddiad lleol | | | | | |
| Cyfleoedd twristiaeth | | | | | |
| Cyfleoedd twf i Gymru a'r DU | | | | | |

A oes unrhyw fuddion eraill y byddech chi'n disgwyl i brosiect fel hyn eu cynhyrchu?

| |
|---|
| |

**C2:** A oes gennych unrhyw sylwadau ar y ddwy brif gydran sy'n ffurfio'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd?

Cydran 1: Cyfleuster profi rheilffyrdd

| |
|---|
| |

Cydran 2: Canolfan ymchwil, datblygu, addysg a hyfforddiant, cyfleusterau storio a chynnal a chadw cysylltiedig

| |
|---|
| |

**C3:** A oes gennych unrhyw sylwadau am y broses o adeiladu'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd?

**C4:** A oes gennych unrhyw sylwadau am weithrediad y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yn y dyfodol?

**C5:** A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd?

**Cwestiwn A**: Mae dyletswydd arnom i ystyried effeithiau ein polisïau ar yr iaith Gymraeg, o dan ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai Canolfan fyd-eang rhagoriaeth rheilffyrdd yng Nghymru yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau allai fod, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

**Cwestiwn B**: Eglurwch hefyd sut ydych chi'n credu y gall arfaethedig Canolfan fyd-eang rhagoriaeth rheilffyrdd yng Nghymru gael ei lunio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn C**: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i sôn amdanynt:

Mae ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi. I gadw eich ymateb yn ddienw (gan gynnwys cyfeiriadau ebost) ticiwch y blwch.